## Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol

## Adroddiad i'r Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad: 9 Mawrth 2005

1. Bellach, mae hi'n ddeuddeg mis ers imi gael fy mhenodi'n Gomisiynydd Safonau, ac wrth gyflwyno'r adroddiad hwn (sef fy nhrydydd adroddiad) i'r Pwyllgor hoffwn fyfyrio dros weithgarwch y flwyddyn ddiwethaf cyn edrych ymlaen at weld beth sydd ar y gorwel.

2. Mae ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn rhan bwysig o'm swyddogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y ffordd a gymerwyd gennyf oedd hyrwyddo'n bennaf y neges am swyddogaeth y Comisiynydd a'r weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ond rhannu fy meddyliau hefyd ynghylch datblygu'r Diwylliant Safonau ymhellach.

3. Rwyf eisoes wedi adrodd i'r Pwyllgor y prif bwyntiau a ddeilliai o'm cyfarfodydd ag Aelodau, sef:

- Mai ychydig o achos pryder sydd ar hyn o bryd ymhlith grwpiau gwleidyddol ynghylch Safonau Ymddygiad yn y Cynulliad.

- Bod pwysigrwydd cynnal safonau moesegol uchel o fewn y Cynulliad yn cael ei ddeall a'i dderbyn, a derbynnir hefyd fod gan bob plaid wleidyddol ran i'w chwarae wrth ddatblygu diwylliant safonau cadarn.

- Bod pobl yn fodlon cydweithredu i ddatblygu arferion fydd yn mireinio'r prosesau safonau.

4. Gwelaf hyn yn bendant fel proses barhaus, ac ymrwymaf i hyrwyddo hyn drwy gydol fy nghyfnod fel Comisiynydd.

<u>Gwefan y Comisiynydd Safonau</u>

5. Cam pwysig ymlaen oedd lansio gwefan y Comisiynydd sydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ar ddau beth, sef fy swyddogaeth fel Comisiynydd a sut y gellir cyrchu'r swyddfa, ac sydd yn darparu hefyd gyfeiriad e-bost neilltuedig ar gyfer y Comisiynydd sy'n golygu bod modd cysylltu'n uniongyrchol â'm swyddfa.

6. Mae'r wefan wedi cael ei defnyddio'n helaeth dros y misoedd diwethaf. Rwyf wedi derbyn llawer o e-byst, yn gyffredinol ynghylch fy swyddogaeth fel Comisiynydd, ac yn benodol ynghylch cwynion am Aelodau Cynulliad.

7. Daeth hyn fodd bynnag â phroblemau ychwanegol hefyd, megis llythyrau diangen a gohebiaeth ynghylch materion nad ydynt yn rhan o'm cylch gorchwyl. Mae hyn, yn anorfod, wedi cynyddu'r baich gwaith, ac yn enwedig felly baich gwaith yr ysgrifenyddiaeth, ac 'rwyf yn ddiolchgar am y cymorth a roddir. Rwyf yn frwd dros sicrhau bod swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i dderbyn y cymorth sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu ac 'rwyf yn bwriadu trafod â'r Ysgrifenyddiaeth sut y gellir gwneud hyn.

Cwynion

8. Yn ystod fy nghyfnod yn Gomisiynydd 'rwyf wedi ymdrin â saith cwyn ffurfiol yn erbyn Aelodau Cynulliad – ac wedi cyfeirio un o'r rhain i'r Pwyllgor fel 'derbyniadwy'.

9. Eleni hefyd yw'r flwyddyn gyntaf inni ddefnyddio'r Weithdrefn Gwynion newydd. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn cytuno bod y Weithdrefn newydd yn cynnig proses fwy agored ac eglur wrth ymdrin â chwynion. Ar ôl defnyddio'r Weithdrefn dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hi'n amlwg ei bod yn cynnig sail gadarnach wrth drafod cwynion.

10. Rwyf yn ymwybodol, fodd bynnag, fod yr Ysgrifenyddiaeth yn bwriadu adolygu'r broses yn rheolaidd, gan ystyried barn pawb sydd ynghlwm â'r pwnc, ac 'rwyf yn awyddus i fod yn rhan o'r adolygu hwn ym mha ddull bynnag fydd yn bosibl.

Gwaith i'r Dyfodol

11. Byddaf yn parhau i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad er mwyn hyrwyddo agenda i adeiladu Diwylliant Safonau yn y Cynulliad a byddaf yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio gwefan y Comisiynydd i hyrwyddo negeseuon pwysig.

12. Yn y dyfodol agos byddaf yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn manylu ar fy ngweithgarwch dros y deuddeg mis diwethaf yn ogystal â rhestru fy nghynlluniau i'r dyfodol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ac fe fydd ar gael i bob Aelod Cynulliad.
Wrth gloi, rwyf yn falch bod Mesur Llywodraeth Cymru'n derbyn ei ail ddarlleniad. Bydd y Mesur yn golygu y bydd y Cynulliad yn cael gwneud ei ddeddfwriaeth ei hun ynghylch Safonau. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i hyrwyddo datblygiadau yn y maes hwn – gan gynnwys nodi Rheolau Sefydlog newydd – fydd, rwy'n sicr, yn atgyfnerthu safonau ymddygiad yn y Cynulliad.

**Richard Penn**
**Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol**
**Mawrth 2006**